

- xxviii. ebost – HUTS – Dydd Agored Mercher 28/09/2022 11yb – 3yp – *cylchlythyrwyd*
xxix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 12.09.22 - 16.09.2022 – *cylchlythyrwyd*
xxx. ebost – Gwefan Fro i Ddyffryn Teifi 3/10/22 sesiwn sefydlu yn Fynnon, Yr Hen Feithrinfa 7.30 - *cylchlythyrwyd*
xxxi. ebost – Hywel Dda Cynghorau Iechyd Cymuned – *cylchlythyrwyd*
xxxii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 19.09.22 - 23.09.2022 - *cylchlythyrwyd*
xxxiii. ebost – Nesta Jones – Urdd – Diolch am y cyfraniad o Dlws
xxxiv. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro C1291 *Capel Iwan* - *cylchlythyrwyd*
xxxv. ebost/email – Ffuniau Cymru - Canllawiau Arolygon Cymunedol – *cylchlythyrwyd*

8. 09/22 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI / PLANNING APPLICATION CONSULTATION

Cais Ymgynghori llawn / Full Planning

- PL/04452 – Glas Y Dorlan, Pentrecwrt, Llandysul, SA44 5AY - decin pren tu allan i'r tŷ sydd wedi ei osod yn barod
PL/04634 - West View, Bancyffordd, Llandysul, SA44 4RY Codi amod 2 ar W/39053 / *Removal of Condition 2 on W/39053 – gwrthwynebu gan ei bod wedi torri ar draws preifatrwydd y tŷ drws nesaf*
PL/04594 – 3 Llysnewydd Cottages, Velindre, Llandysul, SA44 5UT – estyniad ac adnewyddiad i'r bwthyn presennol – *cefnogi*
PL/04593 - 4 Llysnewydd Cottages, Velindre, Llandysul, SA44 5UT – estyniad ac adnewyddiad o'r bwthyn presennol – *cefnogi*
PL/04550 - Land South of Penyparc, Felindre, Llandysul, SA44 5XT – creu ffordd mynedfa newydd yn arwain at Penyparc – *Dim gwrthwynebiad*
PL/04266 - Nantsais, Cwmduad, Carmarthen, SA33 6AX – newid defnydd o adeilad amaethyddol i weithdy gwledig ac annedd ar gyfer crefftwr - *cefnogi*

9. 09/22 MATERION ARIANNOL

1. a. Anfonebau

TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb].....	£
HMRC (PAYE Medi)	£150.00
HIRIO NEUADD PENBOYR [cyfarfod Medi].....	£10.50
AELODAETH ULIC	£582.00

Arian yn y Banc ar 12/09/2022.....£37,970.48

b. S/O

Cyflog y Clerk

£530.00

c. Credid

Praesept

£10,748.49

2. Apêl am Nawdd Ariannol

- i. C.F.f.I Sir Gâr – cynigwyd rhodd o £100

10. 09/22 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- i. Cod Ymddygiad – yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y dyddiad o naill a'i 10ed /17eg Hydref dibynnu pa un bydd yn siwtio'r hyfforddwr a bydd i ddechrau am 7yh
ii. Sul y Cofio – Bydd y Gwasanaeth ar 13eg Tachwedd mae'r Parchedig Aled Jones yn barod i ymgymryd a'r Gwasanaeth yn eglwys St Barnabas i gychwyn am 10yb. Clerc i gysylltu a Mr Showell i gael gweld a yw ar gael i ganu'r trwmpeid a holi'r ysgolion i gymryd rhan.

11. 09/22 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng Adrian Thomas – i. cododd y pryder am y coed mawr sydd ger y tai yn Pont Tyweli – *gan fod ceblau trydan yn mynd drwy'r coed awgrymwyd iddo os oedd rhywbeth gellir ei wneud gyda Western Power i dorri rhywfaint o'r coed*
2. Cyng Marc Rees – i. yr arwydd fflachio ger Rees Motors ddim yn gweithio – *Clerc i gysylltu â'r Sir*
3. Cyng Antoni Schiavone – i. rhywun wedi dwyn yr arwydd 30mya ar hewl cefn Saron lawr am Drefelin
ii. llawer o sbwriel yn cael ei adael ar yr hewl o gefn Saron am Llangeler – *awgrymwyd i gysylltu a'r Cyngor Sir tro nesaf bydd hyn yn digwydd.*
4. Cyng Ken Howell – i. dau arwydd 30mya wedi cael ei codi off ar yr hewl ger Parc Puw tuag at Llangeler ond un wedi dod ar glawr
ii. codwyd y mater o beth gellir gwneud er cof am Aled – *cytunwyd i siarad a'r teulu ynghylch y mater*
5. Cyng Richard Evans – i. dwedodd bod rhywun wedi difrodi'r arwydd o Pont Tyweli allan tuag at y gyffordd fel a wnaethpwyd i'r arwydd o'r blaen – *Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.*
6. Cyng Delyth Evans - i. mae gratin wedi mynd ar goll ar un o'r draeniau ar y ffordd lawr i Drefelin o hewl gefn Saron ac mae eisiau clirio gweddill y draeniau – *mater i'r Cyngor Sir*
ii. mae clawdd Velindre House yn tyfu allan dros y palmant eto

12. **09/22 CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Hydref 31 ain 2022 am 7.30yh yn hybrid yn Neuadd y Ddraig Goch.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

_____ Cadeirydd Dyddiad _____

COPIDRAFFET